Rhifyn Arbennig i Ddathlu Pen-blwydd Tŵr y Jiwbilî yn 200 oed, a AHNE Bryniau Clwyd yn 25 oed

# 2010 | o gwmpas

## yng nghefn gwlad Sir Ddinbych














CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

# am ddim

tasgau i'r teulu
teithiau cerdded
gweithgareddau







# Croeso

Mae'r arweiniad hanfodol hwn i deithiau cerdded gydag arweinydd, ac i weithgareddau a thasgau cadwraeth yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych yn cynnig mwy o brofiadau sy'n addas ar gyfer hyd yn oed mwy o bobl.

Eleni, rydym yn dathlu pen-blwydd Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd yn 25 oed, ac aeth dwy ganrif heibio ers gosod carreg sylfaen Tŵr y Jiwbilî ar gopa Moel Famau. Cadwch eich llygaid yn agored am y symbolau hyn 200 a chofiwch wylio ein gwefan www.ahnebryniauclwyd.org.uk am fwy o wybodaeth.

Gofynnir ichi roi adborth inni gan ddefnyddio'r ffurflen sydd yn y llyfryn hwn, a'r taflenni gwerthuso fydd ar gael ar y diwrnod.

Archebwch le o flaen llaw ar y gweithgareddau a'r teithiau sydd â'r arwydd yma 📖 yn ystod y saith niwrnod cyn y digwyddiad. Os na allwch ddod, yna rhowch wybod inni am fod gennym restr wrth gefn o bobl sydd am ymuno.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn mwynhau mynd O Gwmpas yng nghefn gwlad gwych Sir Ddinbych.

Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych
Parc Gwledig, Loggerheads, yr Wyddgrug, Sir Ddinbych. CH7 5LH
☎ 01352 810614 Ebost: loggerheads.countrypark@denbighshire.gov.uk
Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych

Adran Dwristiaeth, Diwylliant a a Chefn Gwlad
Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd
Cyngor Sir Ddinbych

Derbyniodd y llyfryn hwn a'r digwyddiadau hyn gymhorthdal oddi wrth Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Chronfa Amaethyddol Ewrop er Datblygiad Gwledig.

Ffotograffau
Sylwch; yn y rhan fwyaf o'n digwyddiadau rydym yn tynnu lluniau a fydd efallai'n ymddangos yn ein llyfrynnau a'n cyhoeddusrwydd yn y dyfodol. Os nad ydych yn dymuno hyn, yna dywedwch wrth un o'r arweinwyr cyn i'r digwyddiad ddechrau.

'Yn unol â pholisi Dim Ysmygu Cyngor Sir Ddinbych, gofynnir i bob un o'r rhai sy'n cymryd rhan beidio ag ysmygu yn ystod y gweithgareddau, y digwyddiadau a'r teithiau cerdded sydd yn y rhaglen hon.'

Edrychwch am y logos a'r arwyddion hyn.

⑤+ ⑧+ - Dylech ddeall efallai na fydd y digwyddiad hwn o ddiddordeb i blant sydd o dan 5/ 8 oed
£ - Codir tâl am y digwyddiad hwn

## Dewch i'r digwyddiad ar y bws, a lleihau eich ôl troed carbon!

Mae Bws y Dyffryn yn teithio drwy Ddyffryn Clwyd, a Bws yr Arfordir yn teithio ar hyd glannau môr gwych Sir Ddinbych.

Gwasanaeth Haf yw Bws Clwyd sy'n rhedeg o ddechrau Gorffennaf hyd ddiwedd Medi ar y Suliau ac ar Wyliau Banc. Mae'n cysylltu dechrau a diwedd teithiau cerdded a phentrefi Bryniau Clwyd AHNE gyda Chaer, trefi Gogledd Cymru a rhwydwaith y rheilffyrdd.

Eleni, ceir cysylltiadau newydd o'r Rhyl, Prestatyn ac o Langollen i Barc Gwledig Moel Famau - sydd â Thwr y Jiwbilî ar y copa - a Choedwig Llandegla ble gallwch logi beiciau a mwynhau'r llwybrau beicio oddi-ar-y-ffordd. (www.coedllandegla.com).

Ceir arweiniad i Fws Clwyd yn yr orsaf bysiau leol, y Canolfannau Croeso, llyfrgelloedd a Chanolfan Cefn Gwlad Loggerheads.

### Grŵp Cludiant Teithwyr

01824 706968
www.sirddinbych.gov.uk/highways
01352 704035
www.flintshire.gov.uk

## Pam dylwn ni ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lle defnyddio'r car?

- Mae'n well i'r amgylchedd! Dyma'r rheswm gorau i deithio ar fws, yn arbennig mewn lleoedd gwarchod.
- Mae'n well i chithau! Efallai mai taith fer yn unig fydd cerdded yn ôl ac ymlaen o'r bws ond mae'n cyfrannu at eich ymarfer corff dyddiol.
- Mae'n garedig i'ch pwrs! Yn ôl pa mor bell rydych chi'n teithio, gall fod yn werth eich arian am na fydd rhaid ichi dalu am barcio ac am betrol. Os prynwch docyn dydd Bws Clwyd gallwch deithio ar nifer o fysiau am ddim.
- Gallwch fwynhau'r olygfa! Pan rydych yn gyrru'r car, allwch chi ddim edrych o'ch cwmpas i fwynhau golygfeydd rhyfeddol Bryniau Clwyd, ond ar y bws, rydych yn rhydd i wneud hyn, ac mae'r olygfa'n well o sêt uchel y bws.
- Does dim trafferth chwilio am le i barcio! Peth rhwystredig dros ben yw methu dod o hyd i le parcio. Does dim angen poeni am hyn wrth deithio ar y bws!



## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar y Digwyddiadau | 4 |
| Hwyl i'r Teulu | 6 |
| Teithiau Cerdded Gydag Arweinydd | 14 |
| Tasgau Ymarferol | 27 |
| Map | 30 |

# cipolwg ar y digwyddiadau

| dyddiad | digwyddiadau | tudalen |
|---|---|---|
| **Ionawr** | | |
| 13 | Taith Gerdded Nordig Caer Drewyn | 15 |
| 29 & 30 | Plygu Gwrychoedd | 27 |
| 30 | Gweithdy Adnabod Coed y Gaeaf | 15 |
| **Chwefror** | | |
| 3 - 5 | Plygu Gwrychoedd | 27 |
| 17 | Taith Nordig Moel Famau | 15 |
| 24 | Taith Nordig Prestatyn | 15 |
| **Mis Mawrth** | | |
| 17 | Taith Nordig Llangollen | 15 |
| 24 | Taith Nordig Lady Bagot | 15 |
| 27 Mawrth - 11 Ebrill | Cwis yr Wyau yn Loggerheads | 6 |
| **Ebrill** | | |
| 2 | Dilyn Trywydd y Pasg | 6 |
| 2 - 5 | Helfa'r Wyau Pasg | 7 |
| 5 | Helfa Wyau Pasg Talacre | 7 |
| 7 | Cerddwch ar hyd Llwybr Tyrnog | 15 |
| 8 | Helfa'r Casys Wyau | 7 |
| 10 | Ar dy feic ym Mrenig | 15 |
| 14 | Pistylloedd, ogofau, plwm ac iâ | 15 |
| 17 | Gwylio'r Lloer | 7 |
| 23 | Ffotograffiaeth Ddigidol | 16 |
| 28 | Gwella Cartref Madfall y Tywod | 27 |
| **Mai** | | |
| 2 | Creaduriaid y Dŵr | 7 |
| 2 | Taith Gerdded Côr y Wawr | 16 |
| 6 | Ar y Trên Drwy'r Gorffennol | 16 |
| 7 | Ysbrydion y Goedwig | 16 |
| 7 | Tro drwy goedwig y gwanwyn gyda chipolwg ar y gorffennol | 16 |
| 7 | Rhoi croeso i y Fôr Wennol fach | 27 |
| 12 | Taith y Morwenoliad | 17 |
| 13 | Cerdded a Thynnu Llun ym Mryniau Clwyd | 17 |
| 14 - 16 | Gŵyl Gerdded Prestatyn | 17 |
| 15 | Dal Gwyfynod yn Loggerheads | 17 |
| 16 | Coed a Phistylloedd Cynwyd | 17 |
| 20 | Taith ar Garped Hud | 18 |
| 26 | Cerdded ar y Gefnen | 18 |
| 27 | Machlud ar Dŵr y Jiwbilî | 18 |
| **Mehefin** | | |
| 1 | Daeareg a'ch Dychymyg | 7 |
| 2 | Cyfarfod â'r Mwynwr | 7 |
| 3 | Nos yn Nercwys | 18 |
| 4 | Teithiau i'r Teulu yn y Brenig | 7 |
| 4 | Dilyn Trywydd yr Anifeiliaid | 18 |
| 4 - 6 | Gŵyl y Goedwig | 18 |
| 6 | Diwrnod Bioamrywiaeth Brenig | 8 |
| 7 | Taith Bioamrywiaeth ar y Trên | 8 |
| 8 | Crwydro Corwen yn y Gymraeg | 19 |
| 9 | Natur a Diwydiant | 19 |
| 9 | Brwydr y Balsam a Buffe | 27 |
| 10 | Nos yn Nercwys | 19 |
| 11 | Planhigion ac Anifeiliaid | 19 |
| 11 | Gloÿnnod, Moch Daear ac Ystlumod | 19 |
| 12 | Garddio ar gyfer y Bywyd Gwyllt | 8 |
| 13 | Beicio yn y Brenig | 8 |
| 15 | Ar y Carped Hud | 19 |
| 18 | Yn ôl â ni i Oes yr Efydd | 20 |
| 19 | Gwylio'r Moch Daear i'r Teulu | 8 |
| 21 | Taith Gŵyl Ifan ar Godiad yr Haul | 20 |
| 22 | Oes y Cerrig a mwy | 20 |
| 23 | Llwybr Lleisiau, Loggerheads, sylwebaeth fyw | 20 |
| **Gorffennaf** | | |
| 2 | Saffari yng Ngolau'r Lleuad | 8 |
| 2 | Baith Dolen Brenig | 21 |
| 4 | Rhwysg y Rhostiroedd | 8 |
| 4 | O Gwmpas Trywydd yr Alwen | 21 |
| 6 | Calchfaen, Oes yr Iâ ac Ogofeydd | 21 |
| 8 | Y tu isaf i Benycloddiau | 21 |

● hwyl i'r teulu ● teithiau cerdded gydag arweinydd ● gweithgareddau ymarferol ● mynediad i bawb

| dyddiad | digwyddiadai | tudalen |
|---|---|---|
| 14 | Cylchdaith Dinbych | 21 |
| 17 | Taith y Pererinion | 21 |
| 18 | Gŵyl Glan Môr Talacre | 9 |
| 19 | Hwyl yn y Goedwig | 9 |
| 20 & 27 | Daeareg a'ch Dychymyg | 9 |
| 21 | Crefftau Cefn Gwlad | 9 |
| 21 | Y Llechi a'r Llwyni | 22 |
| 22 | y Ffraeth, y Ffôl a'r Ffansi | 9 |
| 22 | Taith Lleisiau gyda Sylwebaeth ar y Pryd - Caer Drewyn | 22 |
| 24 | Ar dy feic ym Mrenig | 22 |
| 24 | Pen-blwydd AHNE Bryniau Clwyd yn 25 oed | 9 |
| 26 & 29 | Crefftau Cefn Gwlad | 9/10 |
| 27 | Cyfrinachau'r Caerau | 22 |
| 27 - 30 | Gwneud Golosg | 27 |
| 30 | Peirianneg | 22 |
| 31 Gorffennaf & 1 Awst | Mewnlifiad y Rhufeiniaid | 10 |
| **Awst** | | |
| 1 | Hanes Cudd Brenig | 22 |
| 2 & 16 | Hwyl yn y Goedwig | 10 |
| 3 & 10 | Daeareg a'ch Dychymyg | 10 |
| 4 & 20 | Hwyl Glan y Môr | 10/11 |
| 6 | Hanes y Cerrig | 22 |
| 6 | Teithiau Teulu Brenig | 22 |
| 7 | Diwrnod Agored Coed Moel Famau | 10 |
| 9 & 23 | Crefftau Cefn Gwlad | 10/11 |
| 10 | Cyfarfod â'r Mwynwr | 10 |
| 10 | Trywydd Lleisiau Moel Famau | 23 |
| 11 | Llawcian Llus | 11 |
| 12 & 25 | y Ffraeth, y Ffôl a'r Ffansi | 11/12 |
| 12 | Sbio'r Slumod Swil | 23 |
| 12 | Meteorau Mynydd y Gaer | 23 |
| 13 | Rhodio'r Rhostiroedd | 23 |
| 17 & 24 | Hwyl yn y Goedwig | 11/12 |
| 19 | Sioe Amaethyddol Sir Ddinbych a Sir y Fflint | 11 |

| dyddiad | digwyddiadai | tudalen |
|---|---|---|
| 20 | BBQ ac Ystlumod | 23 |
| 24 | Cyfarfod â'r Mwynwr | 11 |
| 25 | Crwydro yn y Gymraeg | 23 |
| 26 | Sbri a Slumod | 2 |
| 29 | Trochi yn y llyn a Saffari Creaduriaid mân | 12 |
| 30 | Y stlumod a Phistyll | 24 |
| **Medi** | | |
| 4 | Beicio o le i le | 24 |
| 6 | Datgelu'r Gorffennol | 24 |
| 7 | Mae'n Ddiwedd y Byd | 24 |
| 9 | Golygfeydd yn dod yn fyw | 24 |
| 9 | Cerdded a Thynnu Lluniau | 24 |
| 12 | Her Fawr y Fryngaer | 24 |
| 15 | Archaeoleg y Brenig a Choed Cyffylliog | 25 |
| 17 | Cylch yr Alwen | 25 |
| 17 & 18 | Diwrnod mawr y Ddyfrdwy | 28 |
| 18 | Gwylio'r Lloer | 25 |
| 19 | Ffair Wledig Hiraethog | 25 |
| 19 | Ar feic ym Mrenig | 25 |
| 25 | Saffari yng ngolau'r Lleuad | 12 |
| 25 & 26 | Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug | 25 |
| 25 & 26 | Gŵyl Gerdded Llangollen | 25 |
| 26 | Ar Drywydd Thomas Telford | 25 |
| **Hydref** | | |
| 8 - 10 | Celf yn y Parc | 12 |
| 15 | Ffeindio Ffwng | 26 |
| 24 | Darganfod Llyn Brenig | 26 |
| 25 | Tŵr y Jiwbilî - Pen-blwydd yn 200 oed | 12/26 |
| 26 | yn mynd i'r coed… | 12 |
| 28 | Cuddio a Chuddfannau | 13 |
| 29 | Mygydau Arswydus | 13 |
| 30 | Brenig a Braw Bwganod | 13 |
| **Tachwedd** | | |
| 21 | Deall ein Hucheldiroedd | 26 |
| 26 | Bywyd Gwyllt yn y Gaeaf | 26 |

# Hwyl i'r Teulu

## yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych



Gofynnir ichi fwcio'ch lle yn ystod y saith niwrnod cyn y digwyddiad. Os na allwch ddod, yna rhowch wybod inni er mwyn inni gynnig y lle i rywun arall.

I gael gwybod mwy, ffoniwch 01352 810586 neu 01352 810614
neu ebostio:
loggerheads.countrypark@sirddinbych.gov.uk

Croeso i glybiau gwyliau ac i warchodwyr sydd â phedwar neu fwy o blant i'r digwyddiadau taro-i-mewn, ond cofiwch y gallwn fod yn brysur ac efallai bydd rhaid ichi aros am le. Yn anffodus, ni allwn dderbyn grwpiau i'n digwyddiadau Bwciadwy.

Cofiwch fod rhaid i bob plentyn fod yng nghwmni oedolyn bob amser.

Oedran ⑤+/⑧+ - Dylech ddeall efallai na fydd y digwyddiad hwn o ddiddordeb i blant sydd o dan 5/ 8 oed

- Nifer cyfyngedig o leoedd, felly bwciwch wythnos o flaen llaw.

13 - 21 Chwefror **Hanner Tymor**

12 - 21 Mis Mawrth
**'Daear' Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth.**

27 Mis Mawrth - 11 Ebrill
**Gwyliau'r Pasg**

Dydd Sadwrn 27 Mis Mawrth - Dydd Sul 11 Ebrill
**Cwis yr Wyau yn Loggerheads**
10am - 4pm
Er mwyn ennill Gwobr y Pasg, codwch daflen Cwis o'r Ganolfan Cefn Gwlad a'i dychwelyd i Gaffi Florence ar ôl ateb y cwis.

Taro mewn

Gwener y Groglith 2 Ebrill
**Dilyn Trywydd y Pasg**
10 - 3pm
Dilynwch Drywydd y Pasg drwy'r Goedwig gan ateb cwestiynau ar hyd y ffordd ac ennill Gwobr y Pasg. Cyfarfod ym Maes Parcio Coed Moel Famau, SJ172612.

Taro mewn

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Dydd Gwener 2 - Dydd Llun 5 Ebrill

**Helfa'r Wyau Pasg**

10am - 4pm

Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig 01490 420463

Taro mewn

Dydd Llun 5 Ebrill Gŵyl Banc

**Helfa Wyau Pasg Talacre**

10am - 3pm

Ymunwch â cheidwaid y glannau Sir y Fflint yn eu digwyddiad blynyddol yn ystod Gŵyl y Pasg. Dim angen bwcio. Cyfarfod wrth y Pwynt Gwybodaeth ym Maes Parcio'r Traeth. Cost: 50p yr un. Yr elw i Ganolfan Cymunedol Talacre. 01244 814931

Dydd Iau 8 Ebrill

**Helfa'r Casys Wyau**

**Helfa Basg y casys wyau**

10.30am - 12.30pm

Dewch i chwilio am gasys wyau'r cathod môr a rhoi cymorth i fonitro'r creaduriaid sydd a'u niferoedd yn lleihau. Rhaid cerdded ychydig o ffordd o'r car i'r traeth. Cofiwch am eich welingtons a blwch i ddal y casys. Croeso i grwpiau. Cyfarfod ym maes parcio Gronant Isaf, gyferbyn â'r Crofters Pantry, SJ090836.

⑤+

Dydd Sadwrn 17 Ebrill

**'Gwylio'r Lloer '**

6.30pm - 11.30pm

Trefnir y digwyddiad mewn partneriaeth â'r cymdeithasau seryddiaeth lleol. Cyfarfod wrth Llyn Brenig. Offer ar gael. 01490 420463

Dydd Sul 2 Mai

**Creaduriaid y Dŵr**

11am & 2pm

Trochi yn y llyn a saffari'r creaduriaid mân. Llyn Brenig 01490 420463

## 29th Mai - 6 Mehefin
## Hanner Tymor

Dydd Mawrth 1 Mehefin

**Daeareg a'ch Dychymyg**

10.30am - 12pm

Dewch i fod yn greadigol gyda ffosiliau ym Mharc Gwledig Loggerheads.

Taro mewn

Dydd Mercher 2 Mehefin

**Cyfarfod â'r Mwynwr**

11am - 1pm

Bydd yr adroddwr storïau lleol, Andy Harrop-Smith, yn eich dwyn yn ôl i'r 19 fed ganrif i ddangos sut roedd mwynwr yn byw, gan adfywio hanes diwydiant Loggerheads. Dyma daith fer tan wrando ar storïau ar hyd y llwybr. Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Gwener 4 Mehefin

**Teithiau i'r Teulu yn y Brenig**

10am & 2pm

Anghofiwch am bopeth er mwyn treulio hanner diwrnod o amser gwerthfawr gyda'r plant yn ystod eu gwyliau a mynd ar daith o gwmpas ardal hardd Hiraethog. Teithiau gydag arweinydd gyda Oneplanet Adventure. Cychwyn o Lyn Brenig. Rhaid bwcio. 01978 751656

5 - 13 Mehefin

## Wythnos Bioamrywiaeth

www.Bioamrywiaethwales.org.uk

gweler hefyd yr adran teithiau cerdded

Dydd Sul 6 Mehefin

**Diwrnod Bioamrywiaeth Brenig**

11am

Yn rhan o Wythnos Bioamrywiaeth Cymru. Dyma ddiwrnod o weithgareddau hwyliog i'r holl deulu. 01490 420463.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Llun 7 Mehefin

**Taith Bioamrywiaeth ar y Trên**

6.30pm - 10pm

Dewch am daith trên ar Reilffordd stêm Llangollen a dysgu am fywyd gwyllt rhyfeddol Dyffryn yr Afon Ddyfrdwy. Codir tâl bach am docynnau a rhaid bwcio o flaen llaw. Cyfarfod yng Ngorsaf Rheilffordd Llangollen.

Dydd Sadwrn 12 Mehefin

**Garddio ar gyfer y Bywyd Gwyllt**

11am - 3pm

Sgyrsiau, gweithdai ymarferol a gwybodaeth i'ch ysbrydoli chi i gadw rhan fechan o'r ardd ar gyfer y bywyd gwyllt. Gallwch brynu planhigion ar y diwrnod. Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Sul 13 Mehefin

**Beicio yn y Brenig**

2pm

Rhan o wythnos genedlaethol y Beic. Bydd Oneplanet Adventure yn taro golwg ar ddiogelwch eich beic a bydd cyfle i reidio Llwybr Oneplanet ar lannau Llyn Brenig gyda beiciwr profiadol yn eich tywys. Rhaid bwcio'ch lle ar y daith. Mae modd llogi beic os bydd angen. 01978 751656

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales oneplanet adventure

Dydd Sadwrn 19 Mehefin

**Gwylio'r Moch Daear i'r Teulu**

8pm - 10pm

Dewch yn barod am daith gerdded 'oddi ar y llwybrau'. Rhaid i blant fod â'r gallu i fod yn dawel ac yn llonydd. Gwisgwch ddillad cynnes, tywyll ac esgidiau cerdded. Peidiwch â gwisgo persawr nac unrhyw beth arall sy'n arogli. Rhaid bwcio. Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint, Parc Gwepra - 01244 814931. Sir y Fflint Flintshire

Dydd Gwener 2 Gorffennaf

**Saffari yng Ngolau'r Lleuad**

8pm

Dewch i chwilio am fywyd gwyllt yr Alwen. Trefnir y digwyddiad mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru yn rhan o wythnos Gerdded Conwy. Cychwyn yng Nghanolfan Ymwelwyr yr Alwen. (cofiwch am eich fflachlamp!). 01492 575 290

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Sul 4 Gorffennaf

**Rhwysg y Rhostiroedd**

11am - 3pm

Gweithgareddau, arddangosfeydd a sgyrsiau i ddathlu hud y rhosydd grug. Parc Gwledig Loggerheads.



## 17 Gorffennaf - 1 Medi
## Gwyliau'r Haf

## 17 Gorffennaf - 1 Awst
## Gŵyl Archeoleg Prydain

Dydd Sul 18 Gorffennaf

**Gŵyl Glan Môr Talacre**

10.30am - 4.30pm

I roi hwb cychwyn ar Wyl Fawr y Ddyfrdwy eleni cawn ŵyl traeth gyntaf Talacre. Ewch am drip i Dalacre a mwynhau'r bwyd, y barcudiaid, y cystadlaethau a llawer mwy. Mwy o wybodaeth o: Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint, Y Ganolfan Ymwelwyr, Gwepra - 01244 814931.

Dydd Llun 19 Gorffennaf

**Hwyl yn y Goedwig**

1.30 - 3.30pm

Dewch i fwynhau gweithgareddau yn y goedwig gyda'r Tîm Addysg y Goedwig ym Mharc Gwledig Loggerheads.

⑤+ Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Mawrth 20 Gorffennaf

**Daeareg a'ch Dychymyg**

10.30am - 12pm

Gallwch ddylunio a chreu crys T gyda thema Ddaearegol arno ym Mharc Gwledig Loggerheads.

⑧+

Dydd Mercher 21 Gorffennaf

**Crefftau Cefn Gwlad**

10.30am - 12pm

Ymunwch â ni i ddatgloi doniau creadigol eich teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads.

⑤+



Dydd Iau 22 Gorffennaf

**y Ffraeth, y Ffôl a'r Ffansi**

2pm - 4pm

Daw'r parc yn fyw pan fydd tîm rhyfeddol o actorion yn eich cyflwyno i'r nifer o gymeriadau gwirion sydd yn y Parc. Parc Gwledig Loggerheads.

## 24 Gorffennaf
## Dathlu Chwarter Canrif AHNE Bryniau Clwyd

Dydd Llun 26 Gorffennaf

**Crefftau Cefn Gwlad**

10.30am - 12pm

Ymunwch â ni i ddatgelu doniau creadigol eich teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads

⑤+

Dydd Mawrth 27 Gorffennaf

**Daeareg a'ch Dychymyg**

1.30pm - 3pm

Gallwch ddylunio a chreu crys T gyda thema Ddaearegol arno. Canolfan Hamdden Corwen.

⑧+



Dydd Iau 29 Gorffennaf

**Crefftau Cefn Gwlad**

10.30am - 12pm

Ymunwch â ni i ddatgelu doniau creadigol eich teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads

⑤+

Dydd Sadwrn 31 Gorffennaf & Dydd Sul 1 Awst

**Mewnlifiad y Rhufeiniaid**

10am - 4pm

Ermine Street Guard - yr actorion sy'n ail greu'r gorffennol Rhufeinig ym Mharc Gwledig Loggerheads.

Dydd Llun 2 Awst

**Hwyl yn y Goedwig**

1.30pm - 3.30pm

Mwynhewch weithgareddau'r Goedwig gyda Thîm Addysg y Goedwig ym Mharc Gwledig Loggerheads.

⑤+ Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Mawrth 3 Awst

**Daeareg a'ch Dychymyg**

10.30am - 12pm

Mwynhau'r ffosiliau diddorol ym Mharc Gwledig Loggerheads.

⑧+ Arden

Dydd Mercher 4 Awst

**Hwyl Glan y Môr**

10am - 12pm

Gemau a Gweithgareddau i chwilio am fywyd y môr sydd ar y traeth yn y Rhyl. Croeso i Grwpiau. Cyfarfod ar y traeth gyferbyn â'r Orsaf Achub, SJ009819.

⑤+

Dydd Sadwrn 7 Awst

**Diwrnod Agored Coed Moel Famau**

10am - 4pm

Gweithgareddau, stondinau ac arddangosfeydd. Dyma eich cyfle i gyfarfod â rhai o staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych. Maes Parcio Coed Moel Famau, SJ172612.

Taro mewn Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Llun 9 Awst

**Crefftau Cefn Gwlad**

10.30am - 12pm

Ymunwch â ni a datgloi doniau creadigol eich teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads

⑤+

Dydd Mawrth 10 Awst

**Daeareg a'ch Dychymyg**

10.30am - 12pm

Mwynhau'r ffosiliau diddorol - Canolfan Hamdden Corwen.

⑧+ Arden

Dydd Mawrth 10 Awst

**Cyfarfod â'r Mwynwr**

11am - 1pm

Bydd yr adroddwr storïau lleol Andy Harrop-Smith yn eich dwyn yn ôl i'r 19 fed ganrif i ddangos sut roedd mwynwr yn byw, gan adfywio hanes diwydiant Loggerheads. Dyma daith fer tan wrando ar

storïau ar hyd y llwybr. Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Mercher 11 Awst

**Llawcian Llus**

10.30am - 5pm

Yn y bore byddwch yn llunio offer casglu llus, yn hel llus ar daith tair milltir ar Foel Famau ac yna'n gwneud pastai lus yng Nghaffi Florence yn y prynhawn. Cofiwch am flwch i'w dal. Parc Gwledig Loggerheads.

⑤+ Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Iau 12 Awst

**y Ffraeth, y Ffôl a'r Ffansi**

2pm - 4pm

Daw'r parc yn fyw pan fydd tîm rhyfeddol o actorion yn eich cyflwyno i nifer o gymeriadau gwirion sydd yn y Parc. Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Llun 16 Awst

**Hwyl yn y Goedwig**

1.30pm - 3.30pm

Dewch i fwynhau Gweithgareddau'r Goedwig gyda'r Tîm Addysg y Goedwig ym Mharc Gwledig Loggerheads.

⑤+ Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Mawrth 17 Awst

**Daeareg a'ch Dychymyg**

10.30am - 12pm

Gallwch adeiladu a ffrwydro'ch llosgfynydd eich hunan ym Mharc Gwledig Loggerheads.

⑧+

Dydd Iau 19 Awst

**Sioe Amaethyddol Sir Ddinbych a Sir y Fflint** ☎ 01352 712131. £

Dydd Gwener 20 Awst

**Hwyl Glan y Môr**

2pm - 4pm

Gemau a Gweithgareddau i ddarganfod bywyd y môr sydd ar y traeth yn y Rhyl. Croeso i Grwpiau. Cyfarfod ar y traeth gyferbyn â Gorsaf yr Achubwyr Bywyd, SJ009819.

⑤+

Dydd Llun 23 Awst

**Crefftau Cefn Gwlad**

10.30am - 12pm

Ymunwch â ni a datgloi doniau creadigol eich teulu ym Mharc Gwledig Loggerheads

⑤+

Dydd Mawrth 24 Awst

**Cyfarfod â'r Mwynwr**

11am - 1pm

Bydd yr adroddwr storïau lleol Andy Harrop-Smith yn eich dwyn yn ôl i'r 19 fed ganrif i ddangos sut roedd mwynwr yn byw, gan adfywio hanes diwydiant Loggerheads. Dyma daith fer tan wrando ar storïau ar hyd y llwybr. Parc Gwledig Loggerheads.





Dydd Mawrth 24 Awst

**Daeareg a'ch Dychymyg**

1.30pm - 3pm

Adeiladu a chreu eich llosgfynydd eich hunan. Canolfan Hamdden Corwen.

8+

Dydd Mercher 25 Awst

**y Ffraeth, y Ffôl a'r Ffansi**

2pm - 4pm

Daw'r parc yn fyw pan fydd tîm rhyfeddol o actorion yn eich cyflwyno i nifer o gymeriadau gwirion sydd yn y Parc. Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Sul 29 Awst

**Trochi yn y llyn a Saffari Creaduriaid mân**

11.00am & 14.00pm

Canolfan Ymwelwyr Brenig 01490 420463

Dydd Sadwrn 25 Medi

**Saffari yng ngolau'r Lleuad**

6pm

Ymunwch â ni i chwilio am fywyd gwyllt ar lannau Llyn Brenig. Trefnir y digwyddiad mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru (cofiwch am eich fflachlamp!)

01492 575 290

25 & 26 Medi

**Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug**

www.moldfoodfestival.co.uk

8 - 10 Hydref

**Celf yn y Parc**

Arddangosfa Cyfryngau Cymysg sy'n dathlu'r amgylchedd lleol. Parc Gwledig Loggerheads. I gael gwybod mwy, ffoniwch Grŵp Celf Llanferres a Cholomendy 01352 810259.

23 - 31 Hydref

**Hanner Tymor**

25 Hydref

**Pen-blwydd Tŵr y Jiwbilî yn 200 oed**

Dydd Mawrth 26 Hydref

**yn mynd i'r coed...**

10am - 12pm

Yng nghoed Rhyd y Gaseg gallwch chwilio am gnau a gafodd eu cnoi i weld pa anifeiliaid sydd yma ac i chwilio am dystiolaeth bod y pathew swil yn byw yma. Maes parcio Rhyd y Gaseg SJ112566

5+ Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Iau 28 Hydref

**Cuddio a Chuddfannau**

12pm - 2pm

Gwnewch eich gorau i fod yn anweledig yn y goedwig. Gallwch adeiladu eich cysgodfan gan ddefnyddio'r deunydd sydd ar gael yn y goedwig, a bydd yn cadw'r glaw allan. Byddwch yn rhoi prawf ar ba mor wrth-ddŵr yw eich cysgodfa - felly cofiwch am eich dillad glaw, jyst rhag ofn!, Maes Parcio Coed Moel Famau SJ172612.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Gwener 29 Hydref

**Mygydau Arswydus**

1pm - 3pm

Tarwch i mewn i Brickfields i wneud mwgwd Calan Gaeaf. Pwll Dŵr Brickfields, Ffordd Derwyn, LL18 2YR. Y Rhyl.

Dydd Sadwrn 30 Hydref

**Brenig a Braw Bwganod**

6pm

Dyma daith gerdded ddychrynllyd ar lannau Llyn Brenig yng nghwmni adroddwr stori 'sbrydion. Byddwch yn cwrdd â phethau brawychus ar hyd y ffordd - a bydd cawl i godi ofn arnoch ar y diwedd 01490 420463

18 Rhagfyr - 3 Ionawr

## Gwyliau'r Nadolig

**Y Nadolig Yn Loggerheads**

Hwyl i'r holl deulu ym Mharc Gwledig Loggerheads y Nadolig hwn

Tel 01352 810614

www.ahnebryniauclwyd.org.uk

## Clwb Archeolegwyr Ifanc

Os oes diddordeb gennych mewn archeoleg ac os rydych chi rhwng 8 ac 16 oed, ymunwch â Chlwb Archeolegwyr Ifanc a drefnir gan Gyngor Archeoleg Prydain.

loggerheads.countrypark@sirddinbych.gov.uk

## Rockwatch

Dyma glwb ieuenctid Cymdeithas y Daearegwyr i'r holl ddaearegwyr ifanc hynny sydd â diddordeb mewn creigiau, ffosiliau, mwynau a'r dirwedd.

☎ 0207 734 5398

www.rockwatch.org.uk

rockwatchatga@btinternet.com



# Teithiau Cerdded gydag Arweinydd

## yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych



Er mwyn ichi allu dewis y daith sy fwyaf addas ar eich cyfer, rydym wedi'u dosbarthu'n fras fel hyn.

♿ = byr ac ar lwybr sydd ag wyneb caled.

👣 = Hawdd (byr, gwastad, wyneb rhydd weithiau)

👣👣 = Cymedrol (rhai mannau serth a wyneb rhydd)

👣👣👣 = anodd (hir, egniol, anwastad, serth)

### Digwyddiadau Hygyrchedd i Bawb

Colin Antwis, Fieldsman Trails. 01352 756202.

Rydym yn dymuno cynnwys gymaint o bobl anabl ag sydd yn ymarferol, felly gofynnir ichi grybwyll os oes arnoch unrhyw anghenion penodol pan rydych yn bwcio.

Yng Nghanolfan Loggerheads ceir toiledau hygyrch, a lleoedd penodol i ddalwyr bathodyn glas, er bod rhaid i bawb dalu ac arddangos. Pan fo angen teithio ar fws, bydd cyfleusterau cadair olwyn ar gael, ond cyfyngir ar y niferoedd am fod maint y bws mini yn dibynnu ar gyflwr y lonydd. Bydd sylwadaeth ar y pryd yn gyfle, yn enwedig i rai â nam ar y golwg, i ddefnyddio ffonau pen i glywed disgrifiadau Colin yn glir. Mewn rhai digwyddiadau penodol bydd dehonglydd ABSL yn bresennol.

Gwisgwch ddillad llac a chyfforddus ac esgidiau cadarn sy'n gafael yn dda

Cofiwch am ddillad glaw os bydd rhagolygon y tywydd yn ansicr, a bwyd a llymaid.

Yn gyffredinol, ni chaniateir cŵn ar y teithiau gydag arweinydd. Efallai byddai rhai teithiau'n addas i gŵn ar dennyn. Chwiliwch am yr arwydd hwn 🐕

Gwnawn ein gorau i beidio canslo unrhyw daith ond os bydd angen gwneud hynny byddwn yn ffonio'r rhai sydd wedi cofrestru.

Byddwn yn cerdded ar gyflymder y cerddwr arafaf. Os rydych ar frys, peidiwch â dod os gwelwch yn dda

Er mwyn ichi allu ddod o hyd i lle mae'r daith yn cychwyn, defnyddiwch www.ordnancesurvey.co.uk neu www.multimap.co.uk. Gosodwch y cyfeirnod grid yn y blwch chwilio a byddwch yn gallu gweld y map.

Bwciwch o flaen llaw ar gyfer pob un o'r teithiau cerdded

☎ 01352 810614 neu

☎ 01352 810586 ar y penwythnos.

Darganfod Ardal o Harddwch Naturiol Bryniau Clwyd

Dydd Mercher 13 Ionawr

**Taith Gerdded Nordig Caer Drewyn**

10am - 11.30am

Taith Gerdded Nordig i ben Caer Drewyn, gyda golygfeydd. Polion Nordig ar gael. Maes parcio Canolfan Hamdden Corwen, SJ082441.

Dydd Sadwrn 30 Ionawr

**Gweithdy Adnabod Coed y Gaeaf**

10am - 12pm

Dewch i ddysgu sut i adnabod y coed noeth yn y parc. Bydd gweithdy dan do ac wedyn bydd taith fer ichi ymarfer eich doniau newydd. Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Mercher 17 Chwefror

**Taith Nordig Moel Famau**

10am - 12pm

Taith weddol gyflym yn y dull Nordig i Dŵr y Jiwbilî. Bydd polion cerdded ar gael ichi. Maes parcio uchaf, Moel Famau, SJ161605.

Dydd Mercher 24 Chwefror

**Taith Nordig Prestatyn**

10am - 12pm

Dewch i gerdded ar Lwybr Prestatyn i Ddyserth yn y dull Nordig. Bydd polion ar gael ichi. Cyfarfod ym maes parcio Anglia, Dyserth, SJ062729.

Dydd Mercher 17 Mawrth

**Taith Nordig Llangollen**

10am - 11am

Taith fer a hamddenol ar hyd y gamlas. Bydd polion ar gael. Cyfarfod yn y Ganolfan Groeso ar y Stryd Fawr yn Llangollen, SJ215420.

Dydd Mercher 24 Mawrth

**Taith Nordig Lady Bagot**

10am - 12pm

Taith Nordig egniol yng nghefn gwlad Rhewl, Rhuthun. Cyfarfod ym mhafiliwn Rhewl, SJ064625. Polion ar gael i'w benthyg.

27 Mawrth - 11 Ebrill

## Gwyliau'r Pasg

Dydd Mawrth 7 Ebrill

**Cerddwch ar hyd Llwybr Tyrnog**

11am - 3pm

Dewch i gerdded 6 ½ milltir ar hyd y llwybr Cymunedol newydd o gwmpas pentref Llandyrnog ac aros am lymaid yn un o'r tafarnau lleol. Dewch â'ch picnic. Cyfarfod ym maes parcio Llangwyfan, SJ138668.

Dydd Sadwrn 10 Ebrill

**Ar feic ym Mrenig**

11am

Cyflwyniad i reidio beics ar lannau'r Brenig mewn partneriaeth â Oneplanet Adventure. Mae'n hanfodol ichi fwcio'ch lle ar y daith hon gydag arweinydd o gwmpas Trywydd yr Alwen. Mae modd llogi beic os oes angen un arnoch. 01978 751656

Dydd Mercher 14 Ebrill

**Pistyllodd, ogofau, plwm ac iâ**

10am - 3pm

Dyma daith gerdded gylchol drwy'r Big Covert ac i Fryn Alun, heibio i foroedd trofannol, pyllau plwm a chychwyn rhewlifoedd. Cyfarfod yng nghilfan Plymog ffordd A494 o'r Wyddgrug i Ruthun 1.2 milltir i'r gorllewin o Lanferres, SJ187599.

Dydd Gwener 23 Ebrill

**Ffotograffiaeth Ddigidol**

10am - 4pm

Dewch i ddysgu sut i dynnu lluniau'r dirwedd leol ar eich camera digidol. Bydd ffotograffydd proffesiynol yn dysgu ichi sut i wneud yn fawr o'ch camera. Bydd amser i ymarfer ac i gael ymateb. Parc Gwledig Loggerheads.

## Ebrill 25
## Diwrnod Cenedlaethol y Ddaear

Dydd Sul 2 Mai

Diwrnod Rhyngwladol Côr y Wawr

**Taith Gerdded Côr y Wawr**

4.30am yn y bore

Ymunwch ag Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru i ddathlu larwm hynaf y ddaear yng Ngwarchodfa Natur Aberduna, Maeshafn. Cyfarfod wrth y blwch ffon yn Maeshafn SJ201610

I gael gwybod mwy, ffoniwch Graham Berry Graham Berry 01352 810469 / 07764897416



Dydd Iau 6 Mai

**Ar y Trên Drwy'r Gorffennol**

10.30am - 4pm

Dewch ar y trên stêm am drip drwy Ddyffryn syfrdanol yr afon Ddyfrdwy i bentref Glyndyfrdwy, cerdded wyth milltir drwy hen weithfeydd llechi i Lwybr Gogledd y Berwyn ac yn ôl i dref Llangollen. Cyfarfod yng ngorsaf Rheilffordd Llangollen.

Dydd Gwener 7 Mai

**Ysbrydion y Goedwig**
**- Pam mae'r rugiar ddu'n deffro mor gynnar yn y bore?**

5.15am - 8am

Taith gerdded gydag arweinydd i guddfan yr RSPB ar ymyl Coedwig Llandegla i wylio defod arddangos y rugiar ddu - un o adar prinnaf Cymru.

Cyfarfod yng Nghanolfan Beicio Llandegla - Coed Llandegla.

Dydd Gwener 7 Mai

**Tro drwy goedwig y gwanwyn gyda chipolwg ar y gorffennol**

10am - 4.30pm

Dyma daith 8 milltir sy'n gyfoethog o fioamrywiaeth ac sy'n mynd drwy goed Dyffryn yr Alun i Warchodfa Natur Gogledd Ddwyrain Cymru yn Rhyd-y-Mwyn ac yna ceir taith gerdded gydag arweinydd o gwmpas y Safle Ffatri Rhyfel Byd II a ddigomisiynwyd. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads



Dydd Mercher 12 Mai

### Taith y Morwenoliad

12.30pm - 4.30pm

Taith gyda sylwebaeth ar y pryd , ar gyfer rhai sydd â nam ar y golwg yn benodol, i gael profiad o olygfeydd ac o seiniau'r nythfa o Forwenoliaid Bach prin, ar hyd llwybr pren ar draeth Gronant. Bydd clustffonau ar gael i'r rhai sy'n drwm eu clyw. Cludiant ar fws mini o siop Parc Gwledig Loggerheads am 12.30pm ac o orsaf Prestatyn am 1.15pm, dod yn ôl tua 4.30pm. Digwyddiadau Hygyrchedd i Bawb - Trefnydd Colin Antwis, Fieldsman Trails. 01352 756202 www.fieldsmantrails.com

Dydd Iau 13 Mai

### Cerdded a Thynnu Llun ym Mryniau Clwyd

11am - 3pm

Ymunwch â'r artist Bill Kneale ar daith gerdded tair milltir gan dynnu braslun o Foel Fenlli. Hoffech chi ddal swyn yr ardal ar bapur? Dyma eich cyfle i wneud hynny. Bydd yr holl ddeunyddiau ar gael, a rhoddir hyfforddiant. Cyfarfod yn y maes parcio uchaf. SJ161605.

## Gŵyl Gerdded Prestatyn

14 - 16 Mai

**"Gogledd Cymru yn yr Oesoedd Canol"**

www.prestatynwalkingfestival.co.uk

Rhif ffôn i fwcio

01745 857185

Dydd Sadwrn 15 Mai

### Dal Gwyfynod yn Loggerheads

9am - 11am

Dewch i archwilio'r 'helfa gwyfynod' o'r noson flaenorol dros baned gydag arbenigwr mewn gwyfynod. Dysgwch am fyd rhyfeddol y gwyfynod a'u gweld yn agos. Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Sul 16 Mai

### Coed a Phistylloedd Cynwyd

10am - 4pm

Taith 8 milltir o Gorwen i Gynwyd ac yn ôl gan gynnwys Eglwys hanesyddol Llangar, yr hen reilffordd a phistyll Cynwyd. Gallwn aros am luniaeth mewn tafarndy ar hanner y daith. Cyfarfod yn y prif faes parcio, Corwen.



Dydd Iau 20 Mai

**Taith ar Garped Hud**

2pm - 3.30pm

Mae'n anodd i bobl sydd ag anabledd ddarganfod y Cefn Gwlad oherwydd y bryniau a'r dyffrynnoedd. Ond heddiw, heb adael eich sedd, aiff y daith synhwyrau hon â chi i dirweddau Parc Gwledig Moel Famau – y golygfeydd, y seiniau, arogl a'r blas. Dehongliad BSL. Cyfarfod yn ystafell y cyfarfodydd, llawr isaf , Loggerheads - 2pm - 3.30pm. Digwyddiadau Hygyrchedd i Bawb - Trefnydd Colin Antwis, Fieldsman Trails. 01352 756202 www.fieldsmantrails.com

Dydd Mercher 26 Mai

**Cerdded ar y Gefnen**

10am - 4.30pm

Taith gerdded 7 ½ milltir ar hyd cefnen Bryniau Clwyd i edmygu'r golygfeydd rhyfeddol ac i ddysgu am y Project y Grug a'r Caerau. Dyma daith linellol a fydd yn heriol o dro i dro a bydd bws mini yn eich cludo i'r man cychwyn. Cyfarfod ym maes parcio uchaf Moel Famau

Dydd Iau 27 Mai

**Machlud ar Dŵr y Jiwbilî**

7.30pm - 10pm

Ar 200fed pen-blwydd adeiladu Tŵr y Jiwbilî gallwch fwynhau gweld y machlud o ben Moel Famau, man uchaf Bryniau Clwyd AHNE. Cyfarfod ym maes parcio uchaf Moel Famau,

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Iau 3 Mehefin

**Y Nos yn Nercwys**

8.45pm - 11pm

Taith hamddenol gyda'r nos am 2 filltir hanner i ddarganfod (gobeithio) y troellwr, ystlumod, tylluanod a'r gwyfynod. Cofiwch am eich eli gwrth-bryfed. Maes parcio gogleddol Coed Nercwys (ger yr Wyddgrug), SJ218593.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Gwener 4 Mehefin

**Dilyn Trywydd yr Anifeiliaid**

10am - 3pm

Ymunwch â chrefftwr maes ar daith fer i ddysgu sut i adnabod cliwiau yn y byd naturiol - ac i dderbyn cyngor defnyddiol am gelfyddyd byw yn y gwyllt. Cyfarfod ar Trial Hill Cilcain SJ31873651.

Dydd Gwener 4, Dydd Sadwrn 5 a Dydd Sul 6 Mehefin

**Gŵyl y Goedwig**

Bydd stondin gan bartneriaethau Bioamrywiaeth Gogledd Cymru yn y sioe boblogaidd hon yn Llanelwy.
www.woodfestwales.co.uk

5 - 13 Mehefin

**Wythnos Bioamrywiaeth**

www.biodiversitywales.org.uk

Dydd Mawrth 8 Mehefin

### Crwydro Corwen yn y Gymraeg

10am - 3pm

Taith gerdded 4 milltir a hanner o gwmpas coedlan, glannau afon a henebion Corwen. Addas i ddysgwyr hefyd. Cyfarfod yn y prif faes parcio yng Nghorwen, SJ161606.

Dydd Mercher 9 Mehefin

### Natur a Diwydiant

10am - 1pm

Taith fer i edrych ar y glaswelltir calchfaen yn Loggerheads ac yna i ymweld â chwarel gyffiniol i weld y glaswelltiroedd gwych a sut rydym yn gweithio'n galed i gynyddu'r Fioamrywiaeth yn y dirwedd drwy'r cynllun adfer y chwarel. Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Iau 10 Mehefin

### Nos yn Nercwys

8.45pm - 11pm

Cyfle arall i fwynhau taith hamddenol gyda'r nos am 2 filltir hanner i ddarganfod (gobeithio) y troellwr, ystlumod, tylluanod a'r gwyfynod. Cofiwch am eich eli gwrth-bryfed. Maes parcio gogleddol Coed Nercwys (ger yr Wyddgrug), SJ218593.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Sir y Fflint Flintshire

Dydd Gwener 11 Mehefin

### Planhigion ac Anifeiliaid

10.30am - 2.30pm

Taith 5 milltir i Gastell Dinas Bran i ddysgu am y planhigion, y trychfilod a'r adar sy'n byw yma. Cyfarfod yn y Ganolfan Groeso ar brif stryd Llangollen.

Dydd Gwener 11 Mehefin

### Gloÿnnod, Moch Daear ac Ystlumod

7.30pm

Yn rhan o'r Wythnos Bioamrywiaeth Cymru, ymunwch â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru ar daith gerdded o gwmpas Coed Rhyd-y-Gaseg Cychwyn o faes parcio'r goedwi SJ111566 01490 420463

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

11 Mehefin

## Diwrnod Moroedd y Byd

Dydd Mawrth 15 Mehefin

### Ar y Carped Hud

2pm - 3.30pm

Gall bryniau a dyffrynnoedd olygu na all rhai pobl anabl ymweld â'r Cefn Gwlad eang. Heddiw, heb adael eich cadair, bydd y daith synhwyrau hon yn eich tywys drwy barc gwledig Loggerheads - y golygfeydd, y sŵn, yr arogl a'r blas.
Cyfarfod yn ystafell y cyfarfodydd, Loggerheads, ar y llawr isaf. Digwyddiadau Hygyrchedd i Bawb - Trefnydd Colin Antwis, Fieldsman Trails. 01352 756202 www.fieldsmantrails.com





Dydd Gwener 18 Mehefin

**Yn ôl â ni i Oes yr Efydd**

11am - 4pm

O lan y môr gallwch fwynhau taith gerdded 6 milltir drwy Goed Pell at y domen gladdu ac yna gallwch gerdded yn ôl i ymweld â nythfa'r forwennol fach. Maes parcio Traeth Barcbi, Prestatyn, SJ068840.

Dydd Llun 21 Mehefin

**Taith Gŵyl Ifan ar Godiad yr Haul**

3.30am - 6am

Taith 3 milltir i wylio codiad yr haul ar ddiwrnod hiraf y flwyddyn o gopa Moel Famau - dyma adeg wych i weld cyfaredd Bryniau Clwyd Maes parcio uchaf Moel Famau, SJ162606.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

Dydd Mawrth 22 Mehefin

**Oes y Cerrig a mwy**

10.30am - 3pm

Dewch i ddarganfod geoamrywiaeth cyfoethog ac archeoleg Mynydd Llantysilio ar y daith 4 milltir hon. Yn cynnwys cludiant bws mini. Cyfarfod yn y maes parcio wrth ochr yr A542, Ponderosa, Bwlch yr Oernant, SJ191481.

Dydd Mercher 23 Mehefin

**Llwybr Lleisiau, Loggerheads, sylwebaeth fyw**

2pm - 4pm

Dewch i gael profiad o natur - y golygfeydd, y seiniau a'r aroglau ar y Llwybr Lleisiau Sylwebaeth Fyw ar hyd lan yr afon, gan gynnwys y bont newydd. Mae'n serth mewn rhai lleoedd a gall fod gwreiddiau a chreigiau ar y llwybrau ble fydd angen help ar rai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn, efallai. Clustffonau ar gael i gerddwyr sydd â nam ar eu golwg. Digwyddiadau Hygyrchedd i Bawb.
Trefnydd Colin Antwis, Fieldsman Trails.
01352 756202 www.fieldsmantrails.com

Dydd Gwener 2 Gorffennaf

### Taith Dolen Brenig

10am

Ymunwch â Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ar daith gerdded y bywyd gwyllt o Goedwig Clocaenog i Ganolfan Llyn Brenig, ble bydd bws mini ar gael i'ch cludo'n ôl i'r dechrau. Cychwyn ym maes parcio Foel Frech SJ025548. Rhan o Wythnos Gerdded Conwy. 01492 575 290

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Sul 4 Gorffennaf

### O Gwmpas Trywydd yr Alwen

10am

Taith bywyd gwyllt gydag arweinydd yng nghwmni Ceidwaid lleol Sir y Fflint a staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Cychwyn ym maes parcio Argae'r Alwen. Rhan o wythnos Gerdded Conwy 01492 575 290

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Mawrth 6 Gorffennaf

### Calchfaen, Oes yr Iâ ac Ogofeydd

10.30am - 1.30pm

Dewch i weld archeoleg a geoamrywiaeth gyfoethog Dyffryn yr Elwy. Cyfarfod ym Mhont Newydd SJ018711.

Dydd Iau 8 Gorffennaf

### Y tu isaf i Benycloddiau, bryngaer Oes yr Haearn

1pm - 4pm

Taith gydag arweinydd drwy Goed Llangwyfan wrth droed y Fryngaer Oes yr Haearn hon. Mae'r llwybr yn gogwyddo i un cyfeiriad, felly efallai bydd angen help ar rai mewn cadair olwyn ar y ffordd yn ôl. Cyfarfod yng Nghanolfan Loggerheads am 1pm ar gyfer taith mewn bws mini i Goed Llangwyfan. Dychwelyd am 4pm. Gwelwch www.fieldsmantrails.com neu ffoniwch 01352 756202 i fwcio.

Dydd Mercher 14 Gorffennaf

### Cylchdaith Dinbych

10am - 3pm

Dewch i ddarganfod y cymeriadau a'r lleoedd a wnaeth Dinbych yn dref i'ch ysbrydoli. Cyfarfod yn Neuadd y Dref, Dinbych, SJ052661.

17 Gorffennaf - 1 Awst

## Gŵyl Archeoleg Prydain

Dydd Sadwrn 17 Gorffennaf

### Taith y Pererinion

11am - 5pm

Taith 7 milltir o bellter sy'n dilyn llwybr y pererinion o Glawddnewydd i Fetws Gwerfil Goch, gan ymweld ag eglwysi Canoloesol a ffynnon sanctaidd. Bydd cludiant yn ôl i'r man cychwyn. Cyfarfod ym maes parcio siop Cymuned Clawddnewydd, SJ083524

Dydd Mercher 21 Gorffennaf

### Y Llechi A'r Llwyni

6pm - 8pm

Tro hamdden am 2 milltir yn nyffryn hyfryd Nant y Pandy yn edrych ar olion gwaith llechi a fu unwaith yn brysur dros ben. Cyfarfod yn y maes parcio y tu ôl i neuadd Glyndyfrdwy, gyferbyn â siop Hodge Podge ar y ffordd A5, SJ148426.



Dydd Iau 22nd Gorffennaf

**Taith Lleisiau gyda Sylwebaeth ar y Pryd - Caer Drewyn**

10am - 4pm

Taith Lleisiau gyda Sylwebaeth ar y Pryd, yn arbennig i bobl sydd â nam ar y golwg. Gan gychwyn yng Nghanolfan Hamdden Corwen byddwn yn cerdded i Fryngaer Oes yr Haearn, Caer Drewyn. Bws mini o Siop Parc Gwledig Loggerheads am 10am. Yn ôl am 4pm. Dewch â phecyn bwyd, neu gallwch brynu tamaid yn y Ganolfan Hamdden. Digwyddiadau Hygyrchedd i Bawb. Trefnydd Colin Antwis, Fieldsman Trails. 01352 756202 www.fieldsmantrails.com

## 24 Gorffennaf
## Pen-blwydd AHNE Bryniau Clwyd yn 25 oed

Dydd Sadwrn 24 Gorffennaf

**Ar dy feic ym Mrenig**

11am

Taith ar feic gydag arweinydd i goedwig Clocaenog gyda Oneplanet Adventure. Mae bwcio'n hanfodol ar y daith hon o gwmpas Llwybr Hendre. Mae modd llogi beic os oes angen. Ffoniwch am y manylion 01978 751656

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Mawrth 27 Gorffennaf

**Cyfrinachau'r Caerau**

10am - 1pm

Mwynhewch y daith gerdded 4 milltir hon i Dwr y Jiwbilî ac i Goed Moel Famau i ddarganfod beth fu project y Grug a'r Caerau yn ei wneud yn ystod y tair blynedd diwethaf. Maes parcio uchaf Moel Famau.

Dydd Gwener 30 Gorffennaf

**Peirianneg**

10am - 4pm

Dewch i weld 7 milltir o Ddyffryn yr Afon Ddyfrdwy, ymweld â Chastell Dinas Bran, Camlas Llangollen, rhyfeddu at ddoniau peirianegol Thomas Telford, a chlywed am Gruffydd ap Madog a'i wraig Emma. Dyma'r rhesymau pam mae'r ardal yn Safle Treftadaeth y Byd. Maes Parcio Llantysilio, SJ198432.

Dydd Sul 1 Awst

**Hanes Cudd Brenig**

2pm

Taith gydag arweinydd yn rhan o Ŵyl Archeoleg Prydain. Cychwyn o faes parcio'r Gogledd, Llyn Brenig SH983574. 01490 420463

Dydd Gwener 6 Awst

**Hanes y Cerrig**

11am - 1pm

Cerddwch drwy'r twyni tywod i ddarganfod yr amrywiaeth o fywyd gwyllt sy'n byw yn ac o gwmpas y system o dwyni sydd yn symud yn barhaol, ac i ddysgu am hanes y cerrig ar y traeth. Maes parcio Traeth Barcbi, Prestatyn, SJ068839

Dydd Gwener 6 Awst

**Teithiau Teulu Brenig**

10am & 2pm

Treuliwch hanner diwrnod gyda'r teulu yn ystod y gwyliau ac ewch am reid o gwmpas ardal hardd Hiraethog. Reidiau gydag arweinydd o Oneplanet Adventure. Cychwyn o Lyn Brenig. Bwcio'n hanfodol. 01978 751656

Dydd Mawrth 10 Awst

**Trywydd Lleisiau Sylwebaeth ar y Pryd, Moel Famau**

2pm - 3.30pm

Dewch i gael y profiad o ogofeydd, seiniau ac arogleuon Natur ar daith gerdded sydd â sylwebaeth leisiol fyw. Mewn ambell le, oherwydd arwyneb y llwybrau a'r serthrwydd, efallai bydd angen cymorth ar rai sy'n defnyddio cadair olwyn. Dehonglydd BSL. Cyfarfod yng Nghanolfan Cefn Gwlad Loggerheads. Digwyddiadau Hygyrchedd i Bawb, Trefnydd Colin Antwis, Fieldsman Trails. 01352 756202 www.fieldsmantrails.com

Dydd Iau 12 Awst

**Sbio'r Slumod Swil**

9pm - 10.30pm

Taith 2 filltir gan ddefnyddio offer datgelu ystlumod er mwyn deall y creaduriaid swil hyn yn well. Dewch â fflachlamp. Maes parcio Saints Gym Garthmelyd, SJ062809.

Dydd Iau 12 Awst

**Meteorau Mynydd y Gaer**

9pm - 11pm

Taith gerdded gydag arweinydd i fyny bryngaer Caer Drewyn i weld y gawod flynyddol o feteorau Perseid. Bydd arbenigwyr Cymdeithas Seryddiaeth Llandyrnog wrth law i ddangos y cytserau a'r cyrff wybrennol eraill. Cyfarfod ym maes parcio Canolfan Hamdden Corwen, SJ082442. Dewch â'ch fflachlamp.

Dydd Gwener 13 Awst

**Rhodio'r Rhostiroedd**

10am - 4.30pm

Mwynhewch daith gerdded 9 milltir i weld rhostiroedd grug Mynydd Llantysilio ar eu gorau. Cyfarfod: Caffi'r Ponderosa, Bwlch yr Oernant. SJ192481.

Dydd Gwener 20 Awst

**BBQ ac Ystlumod**

7pm - 10pm

Mwynhewch BBQ bychan yng Nghoed Nercwys ac wedyn taith gerdded 1 filltir a hanner gyda'r nos i chwilio am ystlumod. Cyfarfod - Coed Nercwys (ger yr Wyddgrug) maes parcio'r gogledd, SJ218593.

Dydd Mercher 25 Awst

**Crwydro yn y Gymraeg**

10.30am - 2.30pm

Taith gerdded drwy gyfrwng y Gymraeg gydag arweinydd am 3 ½ milltir i weld sut y bu i bobl adael eu hôl ar dirwedd Bryniau Clwyd. Croeso i ddysgwyr. Maes parcio uchaf Moel Famau, SJ161606.

Dydd Iau 26 Awst

**Sbri a Slumod**

8pm - 10pm

Taith hamddenol am filltir gan ddefnyddio offer datgelu ystlumod. Parc Gwledig Loggerheads.





Dydd Llun 30 Awst

## Slumod a Phistyll

8.30pm - 10.30pm

Taith hamddenol am filltir a hanner ar hyd y gamlas ac i Raeadr y Bedol i weld pa greaduriaid sy'n ymddangos ar ôl machlud haul. Maes parcio Llantysilio, SJ198433.

Dydd Sadwrn 4 Medi

## Beicio o le i le

10am - 1.30pm

Taith ar feic ar yr arfordir gan ymweld â 5 o safleoedd cefn gwlad o'r twyni i'r coedlannau. Cofiwch am becyn bwyd, a'ch beic. Maes parcio Pwll Dwr Brickfields, SJ013804.

Dydd Llun 6 Medi

## Datgelu'r Gorffennol

10am - 12pm

Dysgwch am ein gorffennol diwydiannol a mynd ychydig o ffordd i mewn i hen gloddfa yng nghwmni arbenigwr ogofeua i weld sut fywyd oedd gan fwynwyr tua dwy ganrif yn ôl. Angen ffitrwydd, gafael da a bod yn ddi-ofn mewn lleoedd cyfyng. Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Iau 7 Medi

## Mae'n Ddiwedd y Byd

10am - 3pm

Taith gerdded linellol am bum milltir dros greigiau Eglwyseg i Worlds End i ddarganfod geoamrywiaeth y dirwedd hon. Cludiant bws mini ar gael. Maes parcio yn ymyl Creigiau Trefor oddi ar y ffordd A542 i'r dwyrain o Langollen, SJ235432.

Dydd Iau 9 Medi

## Golygfeydd yn dod yn fyw

10am - 4pm

Taith i Fryngeyrydd Oes yr Haearn a'r rhostiroedd grug i'w gweld yng nghyd-destun tirweddau heddiw. Byddwn yn aros i glywed disgrifiadau ac i dderbyn gwybodaeth mewn fformatau sy'n briodol e.e. print mawr a chlir, lluniau cyffyrddol /braille, dehonglydd BSL. Cofiwch am becyn bwyd neu prynwch fwyd yn Siop Fferm y Rhug. Bws mini o Barc Gwledig Loggerheads.

Digwyddiadau Hygyrchedd i Bawb.

Trefnydd Colin Antwis, Fieldsman Trails.

01352 756202 www.fieldsmantrails.com

Dydd Iau 9 Medi

## Cerdded a Thynnu Lluniau ym Mryniau Clwyd

11am - 3pm

Ymunwch â'r artist Bill Kneale ar daith dair milltir o hyd gan greu brasluniau o Dŵr y Jiwbilî, Moel Famau. Hoffech chi ddal swyn yr ardal ar bapur? Dyma'ch cyfle i wneud hyn. Bydd hyfforddiant a'r holl offer ar gael ichi ar daith gerdded hyfryd. Cyfarfod yn y maes parcio uchaf SJ161605.

200

Dydd Sul 12 Medi

## Her Fawr y Fryngaer

8am - 7pm

Dewch i weld chwech o fryngeyrydd

gorau'r ardal mewn un diwrnod. Bydd y daith yn 14 milltir i gyd. Cyfarfod ym Mharc Gwledig Loggerheads. Dowch â'ch pecyn bwyd. Mae'n daith egniol gyda llawer o ddringo. Bydd bws mini'n eich cludo rhwng Dyffryn y Ddyfrdwy a Bryniau Clwyd. Allwch chi oresgyn y Chwech?

Dydd Mercher 15 Medi

### Archaeoleg y Brenig a Choed Cyffylliog

10am - 4pm

Taith gerdded 7 milltir gan gynnwys Llwybr Archeoleg y Brenig ac yna i lawr drwy Goedwig Clocaenog a dyffrynnoedd coediog, serth i Gyffylliog i gyfarfod bws mini a fydd yn cludo'r cerddwyr i'r man cychwyn. Cyfarfod ym maes parcio Archeoleg Llyn Brenig, SH983574

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Gwener 17 Medi

### Cylch yr Alwen

10am - 3.30pm

Mwynhewch rostiroedd agored Hiraethog ar y daith gerdded hon o 10 milltir ar lannau'r ddwy gronfa ddŵr. Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig, SH967547.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru Forestry Commission Wales

Dydd Sadwrn 18 Medi

### 'Gwylio'r Lloer'

6.30pm - 11.30pm

Ymunwch â ni i ddathlu blwyddyn ryngwladol seryddiaeth gyda noson telesgopau agored. Trefnwyd mewn partneriaeth â chymdeithasau seryddiaeth lleol. Darparir offer i'r rhai sy'n cymryd rhan. Canolfan Ymwelwyr Llyn Brenig 01490 420463

Dydd Sul 19 Medi

### Ffair Wledig Hiraethog

10am - 4pm

Rhaglen lawn o ddigwyddiadau ac o weithgareddau, gan gynnwys teithiau cerdded gydag arweinydd, a reid beic. Mewn cysylltiad â Chymdeithas Hiraethog. 01490 420463

Dydd Sul 19 Medi

### Ar feic ym Mrenig

11am

Cyflwyniad i feicio yn Brenig mewn partneriaeth â Oneplanet Adventure Bwcio'n hanfodol ar y daith feiciau gydag arweinydd o gwmpas Llwybr Brenig. Mae modd llogi beic os oes angen.
01978 751656

oneplanet adventure

25 & 26 Medi

## Gŵyl Fwyd yr Wyddgrug

www.moldfoodfestival.co.uk

25 & 26 Medi

## Gŵyl Gerdded Llangollen

Dydd Sul 26 Medi

### Ar Drywydd Thomas Telford

10am - 4pm

Taith gerdded 7 milltir o Raeadr y Bedol i Bont Ddŵr Pontysyllte safle Treftadaeth y Byd newydd. Bydd cludiant bws mini ar gael. Maes parcio Llantysilio, SJ198432.

## Medi Penwythnosau Treftadaeth Agored yn Sir Ddinbych

I weld y teithiau cerdded, sgyrsiau a thripiau yn Nyffryn Clwyd yn ystod Medi ewch i www.valeofclwydheritage.org.uk



Dydd Gwener 15 Hydref

**Ffeindio Ffwng**

1pm - 3 pm

Taith gerdded 1 ½ milltir i archwilio'r ffwng yn y coed. Parc Gwledig Loggerheads.

Dydd Sul 24 Hydref

**Darganfod Llyn Brenig**

10am

Taith gerdded gydag arweinydd o gwmpas Llyn Brenig. 01490 420463

Dydd Llun 25 Hydref

## Tŵr y Jiwbilî - Pen-blwydd yn 200 oed

## Digwyddiadau Earthcache

ewch i www.earthcache.org

Dydd Sul 21 Tachwedd

**Deall ein Hucheldiroedd**

10am - 4pm

Cyfres o sgyrsiau ar y rhostiroedd a'r caerau sydd ar Fryniau Clwyd a Mynyddoedd Llantysilio Cewch ddysgu am y datblygiadau newydd sydd yn y project y Grug a'r Caerau. Lleoliad i'w gadarnhau, ewch i www.ygrugarcaerau.co.uk for details.

Dydd Gwener 26 Tachwedd

**Bywyd Gwyllt yn y Gaeaf**

9am - 4pm

Taith gerdded am 7 milltir yn y gaeaf i weld y cynefinoedd, y pentrefi a rhai nodweddion bywyd gwyllt anghyffredin. Parc Gwledig Loggerheads.

## Rhaglen 'Cerddwn'

Am fanylion ffoniwch 01745 356197

| Diwrnod | Man Cychwyn | Amser cychwyn | Parhad |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun | Llain Bowlio, Llanelwy | 10.30am | 1+ awr |
| Dydd Llun | Canolfan Merched y Rhyl | 1.00pm | 1 awr |
| Dydd Llun | Taith Nordig, Neuadd y Dref, Dinbych | 11am | 1+ awr |
| Dydd Mawrth | Canolfan Hamdden Dinbych | 10am | 1+ awr |
| Dydd Mawrth | Canolfan Gymunedol Dyserth | 11am | 2 awr |
| Dydd Mercher | Llain Bowlio, Llanelwy | 10.30am | 1+ awr |
| Dydd Iau | Pwll y Grawys, Dinbych | 10am | 1+ awr |
| Dydd Iau | Canolfan Gymunedol Rhuddlan | 11am | 2 awr |
| Dydd Gwener | Sesiwn dysgu techneg Cerdded Nordig, Pwll dwr Brickfield | 9am | 1 awr |
| Dydd Gwener | Sesiwn dysgu techneg Cerdded Nordig Pwll dwr Brickfield | 12.30pm | 2 awr |

# Gweithgareddau Ymarferol

## yng Nghefn Gwlad Sir Ddinbych



Ddwywaith y flwyddyn, mae Gwasanaethau Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn cyhoeddi rhaglen lawn i wirfoddolwyr sy'n rhoi gwybodaeth am gyfleoedd i gynorthwyo gwarchod ein cefn gwlad a'n bywyd gwyllt a dysgu'r sgiliau traddodiadol gan gadw'n ffit ar yr un pryd.

Dyma restr o rai o ddigwyddiadau 'blasu gwirfoddoli' ichi roi cynnig arnyn nhw.

Os hoffech gopi o'r Rhaglen Gwirfoddolwyr, ffoniwch 01352 810614 neu gwelwch www.AHNEbryniaudwyd.org.uk.

Gwisgwch ddillad y gallwch eu baeddu, esgidiau sy'n gyfforddus sydd yn gafael; dewch â dillad glaw a phecyn bwyd.

Rhoddir hyfforddiant.

Cofiwch sicrhau bod eich pigiad tetanws yn gyfredol

Cyrsiau arbenigol mewn sgiliau Coedlannau - The Warren, Bodfari. ☎ 01745 710626 neu www.woodlandskillscentre.co.uk

Dydd Gwener 29 & Dydd Sadwrn 30 Ionawr

**Plygu Gwrychoedd**

10am - 3pm

Rhowch gynnig ar y grefft draddodiadol hon a helpu i adfer rhan o hen wrych sydd wedi gordyfu ar ymyl Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa. Rhoir hyfforddiant lawn. Cyfarfod yn y gilfan ble mae llwybr Clawdd Offa yn croesi'r ffordd o Lanarmon yn Iâl i Landegla. Ffoniwch i gael cyfarwyddiadau gwell.

Dydd Mercher 3 - Dydd Gwener 5 Chwefror

**Plygu Gwrychoedd**

10am - 3pm

Dewch i roi help llaw i'r wardeniaid i osod gwrych terfyn ar gyfer y goedlan gymunedol a grëwyd yn ddiweddar yn Glan Morfa. Rhoddir hyfforddiant ac offer. Maes parcio Glan Morfa, Marsh Road, y Rhyl, SJ002805.

Dydd Mercher 28 Ebrill

**Gwella Cartref Madfall y Tywod**

10am - 1pm

Dewch i'n helpu i wella'r cynefin ar gyfer madfallod y tywod a gafodd eu hail-gyflwyno yma, drwy greu clytiau noeth o dywod. Cyfarfod ym maes parcio isaf Traeth Barcbi.

Dydd Gwener 7 Mai

**Paratoi ar gyfer ymweliad blynyddol y Fôr Wennol fach**

10am - 3pm

Dewch i roi cymorth i baratoi'r ardal lle mae'r adar môr prin hyn yn dod bob blwyddyn. Erbyn hyn, dyma'r unig nythfa yng Nghymru, felly bydd pawb wrthi'n brysur yn gofalu bod popeth yn barod ar eu cyfer. Cyfarfod wrth y fynedfa i Warchodfa Natur Leol Gronant (ger Presthaven), SJ089841.

Dydd Mercher 9 Mehefin

**Brwydr y Balsam a Bwyta'r**

6pm - 10pm

Dewch i'n helpu ni i gychwyn cadw'r balsam Himalaya o dan reolaeth ar lannau'r afon Alun. Cewch fwffe yn wobr am eich gwaith caled. Bydd y digwyddiad yn ardal yr Wyddgrug, cewch wybod ble yn union pan fyddwch yn bwcio.





Dydd Mawrth 27, Dydd Mercher 28 a Dydd Gwener 30 Gorffennaf

**Gwneud Golosg**

10am - 3pm

Rhowch gynnig ar y grefft draddodiadol hon. Llwytho'r odyn ar y dydd Mawrth, cynnau'r odyn ar y dydd Mercher, a rhoi'r golosg mewn sachau ar y Dydd Gwener Cyfarfod y tu allan i Ysgol Cyffylliog ac wedyn ein dilyn ni i'r safle. SJ060578.

Dydd Gwener 17 a Dydd Sadwrn 18 Medi

**Diwrnod mawr y Ddyfrdwy**

Yn ôl drwy alwad poblogaidd. Dewch i gymryd rhan yn y marathon o lanhau 48 awr ar lannau'r Ddyfrdwy o Brestatyn i Gaer ac i Gilgwri. Grŵp gennych? - dewch i gymryd rhan! I gael gwybod mwy ffoniwch : Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir y Fflint, Canolfan Ymwelwyr Wepre 01244 814931.